LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 04**

**Teitl:** Sbotolau: Y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Gweithredu** | Croesewir unrhyw sylwadau, os yw'r Bwrdd yn dymuno adborth. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhellion** | I nodi, er gwybodaeth yn unig. |
| **Risg** | Mae unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'n methiant i gydymffurfio â'n dyletswyddau eisoes wedi cael eu hadrodd i'n Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. |
| **Cyllid** | AMH |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol /** | Hysbysiad Cydymffurfio Llais – 1/4/2024<br><br>Cynllun blynyddol: Tyfu a gwella fel sefydliad<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Ein Pobl, Ein Diwylliant a'n Gwasanaethau (2,3 a 4) |
| **Cydraddoldeb** | Bydd unrhyw newidiadau polisi neu brosesau mawr fel rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn cael eu Hasesiad Effaith Integredig eu hunain.<br><br>Mae anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn parhau drwy'r ddau rwydwaith o dan gyfrifoldeb Pennaeth EDI a Lles. |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn effeithio ar:<br>**Mewnol:** ein Pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid / partneriaid / rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ☒ ein sefydliad |
| **Cymeradwyaeth** | Ben Eaton |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol** | Mae Cynllun Gweithredu'r Gymraeg wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (Rhagfyr 2024) |
| **Awdur/ Cyflwyno** | Charysse Harper & Roxanne Treacy/Ben Eaton |
| **Dyddiad** | 22 Ionawr 2025 |
| **Cefndir / Background** | |

Mae Llais wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ar draws pob maes o'i waith ac o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Arweinir yr ymrwymiad hwn gan ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fel y manylwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024.

Mae'r hysbysiad yn gosod y safonau y mae'n rhaid i Llais eu bodloni i sicrhau bod ei wasanaethau'n hygyrch yn y Gymraeg a bod yr iaith yn cael ei hannog.

Y tu hwnt i fodloni'r gofynion cydymffurfio hyn, mae Llais yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu cael gafael ar ofal a chymorth yn eu dewis iaith.

Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd, ein mentrau allweddol a'n cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach o fewn Llais ac mewn partneriaeth â darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

## Manylion

### Cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg

Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi bod wrthi'n ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith i wrando ar eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Rydym wedi gwneud hynny drwy ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned fel Llais Lleol, fforymau rhanbarthol a digwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gyrraedd dros 1,500 o bobl.

Mae'r cyfleoedd hyn wedi atgyfnerthu'r hyn yr ydym yn ei glywed yn gyson trwy ein hymgysylltiad a chan sefydliadau partner: pwysigrwydd gwasanaethau dwyieithog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r effaith bersonol y mae'n ei chael ar bobl pan nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn yr iaith ddewisol.

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024, cydweithiodd Llais â'r rhaglen "Mwy na Geiriau" i archwilio pa mor dda y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithio o ddydd i ddydd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dau weithgaredd allweddol:

1. **Trafodaeth banel yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar stondin Llywodraeth Cymru, roedd Cadeirydd Llais, yr Athro Medwin Hughes, yn cynrychioli'r safbwyntiau rydym wedi'u casglu, gan ymuno â thrafodaeth ochr yn ochr â ffigyrau amlwg fel Elin Wyn, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Mwy na Geiriau, ac Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg.**

   Aeth y panel i'r afael â heriau a datblygiadau wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n gryf ar atebion ymarferol i'r sector.

2. **Arolwg cyhoeddus ar y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol Lansiwyd arolwg ar ôl i'r drafodaeth banel ganiatáu i bobl rannu eu barn ar ddefnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Amlygodd yr ymatebion rôl hanfodol gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cyfathrebu ymarferol a lles emosiynol.**

   Dangosodd yr adborth yn gyson fod pobl yn teimlo'n hapusach, yn fwy cysylltiedig ac yn cael eu parchu pan allant gyfathrebu yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn parhau i fod yn anghyson, gan greu bylchau mewn gofal a phrofiadau cleifion. Dywedodd pobl wrthym yn eu geiriau eu hunain yr effaith sydd gan hyn:

   **"Rwy'n dioddef o iselder ac yn ei chael hi'n anodd cyfleu fy nheimladau pan nad oeddwn yn defnyddio'r iaith y cefais fy magu i'w siarad"**

   **"Gall pobl â dementia fynd yn ynysig iawn yn yr ysbyty pan nad yw pobl yn siarad yr un iaith - dydyn nhw ddim yn deall beth sydd yn cael ei ddweud ac ni allant ofyn beth sydd angen iddynt wybod."**

Gan adeiladu ar y mewnwelediadau hyn, mae Llais yn paratoi i gyhoeddi datganiad sefyllfa i dynnu sylw at effaith darpariaeth Gymraeg gyfyngedig ar ofal cleifion. Bydd datganiad i'r wasg yn cyd-fynd â hyn, sylwadau i Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, ac Awdurdodau Lleol, ac rydym yn gobeithio codi ymwybyddiaeth drwy ddarn newyddion cysylltiedig posibl gydag ITV Cymru.

Yn ogystal, mae Llais wedi darparu tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Llywodraeth y DU ar bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau trawsffiniol yn Lloegr. Mae hyn wedi ein galluogi i bwysleisio'r heriau unigryw sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg ac i eirioli dros well mynediad at wasanaethau dwyieithog, hyd yn oed y tu hwnt i Gymru.

Rydym hefyd yn gweithio gyda thîm Mwy na Geiriau i recriwtio mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i gefnogi ein hymdrechion parhaus i ddal lleisiau siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Gyda'n gilydd, ein nod yw sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt yn yr iaith sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus a naturiol iddynt.

## Mynediad i wasanaethau Llais yn Gymraeg

Mae gan Llais gyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio, a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2024, gan amlinellu'r safonau y mae'n rhaid i ni eu dilyn i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

Cydnabuwyd ein hymdrechion gan ein cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn trafodaeth gadarnhaol ddiweddar am weithio mewn partneriaeth i gefnogi ein defnydd o'r Gymraeg a'n rôl wrth ddylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wrth iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r gydnabyddiaeth hon yn tynnu sylw at y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth atgyfnerthu'r angen i edrych y tu hwnt i gydymffurfio i feithrin cynhwysiad gwirioneddol o'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

I gefnogi hyn, arweiniodd Arweinydd y Rhaglen Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant hunanasesiad yn ddiweddar, gyda thimau yn gwerthuso eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau gan ddefnyddio statws Coch, Oren,

Gwyrdd (RAG). Ni nodwyd unrhyw safonau fel Coch, gyda 19 o 121 yn cael eu nodi fel Oren.

Mae'r meysydd hyn yn cael sylw drwy Gynllun Gweithredu ar y Gymraeg, gyda disgwyl gwelliannau wrth i brosesau gael eu hymgorffori a mireinio canllawiau.

**Ymgyrchoedd allweddol**

Dathlwyd Diwrnod Shwmae ym mis Hydref 2024 gyda lansiad y fenter "Dysgu Cymraeg gyda Llais," gan ymgysylltu â bron i 60% o staff. Mae hyn wedi gosod y sylfaen ar gyfer datblygiadau pellach sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Iaith Gymraeg.

Ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2024, anogodd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg (Defnyddiwch eich Cymraeg) bobl i gysylltu â ni yn Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yn eu cymunedau.

**Themâu a heriau**

Nododd adborth o'r hunanasesiad a thrafodaethau sefydliadol themâu a heriau allweddol:

- **Anghysondeb mewn cyfrifoldebau:** Roedd rhai timau yn ystyried safonau fel datblygu polisi (safon 69) a chomisiynu ymchwil (safonau 75 a 76) fel unig gyfrifoldeb y Tîm Cenedlaethol, er bod angen cyfraniadau gan bob rhanbarth arnynt.
- **Rhannu arferion da:** Mynegodd timau yr angen i adolygu a rhannu arferion gorau ar draws y sefydliad er mwyn cyd-fynd yn well â'r safonau.
- **Rhwystrau hyder:** Amlygodd staff heriau gyda therminoleg arbenigol (e.e. termau meddygol) a diffyg hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau.
- **Nifer cyfyngedig o staff Cymraeg eu hiaith mewn rhai meysydd:** Mae rhai rhanbarthau'n wynebu heriau oherwydd prinder staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae dibynnu ar wasanaethau cyfieithu allanol yn gallu achosi oedi.

**Grŵp Gweithgor Iaith Gymraeg**

Mae'r Gweithgor Cymraeg Mewnol (Grwp Gweithgor Iaith Gymraeg) wedi bod yn ganolog wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Nod y grŵp yw hyrwyddo meddylfryd "Cymraeg yn gyntaf" ac mae'n annog cydweithio i sicrhau bod yr iaith yn gallu ffynnu o fewn Llais.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar helpu i fagu hyder ymhlith ein pobl fel bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel rhan naturiol o weithrediadau dyddiol.

**Sgiliau Cymraeg yn Llais**

Amlygodd asesiad sgiliau diweddar sylfaen gref ar gyfer twf:

- **Mae 40%** o staff yn gallu siarad a deall Cymraeg, **39%** yn gallu darllen Cymraeg, a **38%** yn gallu ysgrifennu Cymraeg (lefelau 1-5).
- Sgiliau sydd gryfaf yn y Tîm Cenedlaethol a Gogledd Cymru, er nad oes gan ranbarthau fel Cwm Taf Morgannwg a Gwent staff Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd.
- **Mae 10% o'r staff** wrthi'n dysgu'r Gymraeg, a mynegodd **44%** o staff di-Gymraeg ddiddordeb mewn gwella eu sgiliau.

**Edrych ymlaen**

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ysgogi gwelliant o ran dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg.

Mae ein gwaith mewnol yn dangos brwdfrydedd a chyfleoedd gwirioneddol i ehangu sgiliau Cymraeg o fewn Llais. Trwy annog mwy o gyfleoedd dysgu, meithrin amgylchedd cefnogol, ac ymgorffori'r Gymraeg ym mhob maes o'n gwaith, gallwn wella cynhwysiant a gwasanaethu anghenion amrywiol pobl ledled Cymru yn well.

Gydag ymdrechion parhaus, gallwn wneud y Gymraeg yn rhan ffyniannus a naturiol o bopeth a wnawn. Bydd hyn yn helpu ein gwaith gyda staff, partneriaid, a'r cyhoedd fel y gallwn gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gwasanaethau i ganiatáu i bobl gael mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis.